| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **15 Gorffennaf 2014** |
| TEITL: | **DATGANIAD O GYFRIFON 2013/14** |
| PWRPAS / ARGYMHELLIAD: | **Derbyn y Datganiad o Gyfrifon statudol (drafft cyn archwiliad) er gwybodaeth** |
| AWDUR: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Peredur Jenkins** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14, sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddaru ddiweddu ar 31 Mawrth 2014.

1.2 Y Datganiad o Gyfrifon drafft ar ei ffurf safonol yw'r ddogfen ddilynol, 121 tudalen o hyd mewn un iaith. Mae linc i'r Datganiad eisoes wedi'i anfon at holl aelodau etholedig a phrif swyddogion y Cyngor ar 1 Gorffennaf 2014.

1.3 Nid yw'r cyfrifon drafft a gyflwynir yma wedi'u harchwilio eto, felly efallai bydd angen rhai newidiadau iddynt cyn cyflwynir fersiwn terfynol er cymeradwyaeth yng nghyfarfod 25 Medi 2014 o'r Pwyllgor Archwilio.

1.4 Mae ffurf a chynnwys sylfaenol y Datganiadau yma wedi'i orfodi o dan reoliad 7 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 ac adolygiadau i'r rheiny, yn ogystal â rheoliadau a safonau eraill. Mae nifer o ofynion o dan y SAARh (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) sydd yn seiliedig ar God Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn Natganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2013/14. Gan fod y rheoliadau yn mynnu datganiadau ar ffurf safonol, mae cymariaethau gyda chyfrifon cyrff eraill wedi'u hwyluso, ond erbyn hyn mae'r datganiadau yn dechnegol gymhleth ac yn fwy anodd i'w ddeall.

1.5 Cyflwynwyd adroddiadau syml a chryno ynglŷn â chyfrifon 2013/14 i gyfarfod 10 Mehefin 2014 o'r Cabinet. Roedd yr adroddiad hwnnw (sy'n eitem flaenorol ar raglen y cyfarfod yma o'r Pwyllgor Archwilio) yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

## 2. GWEITHREDIAD ANGENRHEIDIOL

2.1 Y Pwyllgor Archwilio yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" ar ran y Cyngor, a cyn 2009/10 bu'r pwyllgor yn cymeradwyo'r datganiad drafft (amodol ar archwiliad) o'r cyfrifon. Fodd bynnag, ddaru'r addasiadau 2010 i'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio roi'r cyfrifoldeb am gymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon drafft cyn 30 Mehefin i'r Swyddog Cyllid Statudol (y Pennaeth Cyllid yn Cyngor Gwynedd).

2.2 Erbyn hyn, nid oes raid i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor, ond fel "arfer dda" y'i cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ER GWYBODAETH.

2.3 Diau y bydd aelodau'r pwyllgor awydd ystyried a deall y cynnwys fel paratoad ar gyfer cymeradwyo'r fersiwn terfynol ym Medi, ac i arfogi ei hunain gyda'r wybodaeth ar gyfer ystyried materion a archwilir yn eu cyd-destun.

## 3. CAMAU DILYNOL

3.1 Ymhellach i ardystiad gan y Pennaeth Cyllid ac ystyriaeth gan y Pwyllgor Archwilio, bydd y Datganiad o Gyfrifon 2013/14, ynghyd â phob datganiad ariannol perthnasol arall, yn destun y broses archwilio blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

3.2 Yn unol â rheoliadau 13 a 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, bydd y Cyngor hefyd yn hysbysu'r cyhoedd, drwy'r wasg leol, bod y cyfrifon ar gael i'w harolygu am gyfnod o 20 diwrnod. Fel rhan o'r broses archwilio, yn ystod y cyfnod o 01/08/14 tan 29/08/14, bydd gan etholwyr llywodraeth leol gyfle i holi'r archwiliwr allanol ynghylch cyfrifon y Cyngor.

3.3 Fel nodwyd ym mharagraff 1.3 (uchod), cyflwynir y fersiwn terfynol (wedi'i archwilio) o Ddatganiad o Gyfrifon 2013/14 y Cyngor i gyfarfod 25 Medi 2014 o'r Pwyllgor Archwilio AM GYMERADWYAETH, ynghyd ag adroddiad yr Archwilydd sydd wedi'i benodi gan Swyddfa Archwilio Cymru (Anthony Barrett).

3.4 Wedi hynny, bwriad yr Adran Cyllid yw i ddarparu linc i'r Datganiad terfynol i holl aelodau etholedig a phrif swyddogion y Cyngor, yn ogystal ag eraill sydd â diddordeb.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) 2013/14.